
Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

# 2021
# DAN ADOLYGIAD



# CIPOLWG AR Y FLWYDDYN 2021

## Ionawr

- Cyflawni trawsnewid cyfiawn yng Nghymru
- Mudo ar ôl Brexit a Chymru: Effeithiau posibl y system newydd ac argymhellion ar y blaenoriaethau ar gyfer dylanwadu ar bolisi mewnfudo'r DU.
- Mudo ar ôl Brexit a Chymru

## Chwefror

- Gweithio o bell
- Cyrhaeddiad addysg – ymateb i bandemig y Coronafeirws
- Codi oedran cyfranogi mewn addysg i 18
- Gofal cartref: y gwirionedd?
- Dyfodol Tecach - Deall anghydraddoldeb yn ymgynghoriad Ein Dyfodol Cymru

## Mawrth

- Gwella cydraddoldeb hiliol yng Nghymru
- Grantiau cyfleusterau i'r anabl – newid y prawf modd
- Papur briffio CPCC
- Gwreiddio hanes, hunaniaeth a diwylliant pobl ddu a lleiafrifoedd ethnig ym myd addysg yng Nghymru
- How can subnational governments develop and deliver distinctive policy agendas? ( International Review of Administrative Sciences)
- The Motivations for the Adoption of Management Innovation by Local Governments and its Performance Effects (Public Administration Review)
- Organisational Identity Threats and Aspirations in Reputation Management (Public Management Review)

## Ebrill

- Newid yn yr Hinsawdd: cyflawni'r trawsnewid yng Nghymru
- Haws dweud na gwneud
- Interniaethau PhD - Dysgu trwy wneud.

## Mai

- Rôl cymunedau a'r defnydd o dechnoleg wrth liniaru unigrwydd yn ystod y pandemig.
- Creu Cymru Wrth-hiliol
- Zoomshock - Ai gweithio o bell yw dyfodol economi Cymru?
- Gwella cydraddoldeb hiliol yng Nghymru

## Mehefin

- Gwirfoddoli a llesiant yn ystod pandemig y Coronafeirws
- Defnydd Llywodraeth Cymru o offer polisi i brif ffrydio cydraddoldeb
- Gwella'r defnydd o dystiolaeth mewn llywodraeth leol
- Cydweithio a gweithredu polisi ar lefel leol yng Nghymru
- Dyfodol polisi ffermio Cymru
- Pum mlynedd ers y refferendwm am adael yr Undeb Ewropeaidd
- Gweithredu'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol: dysgu o brofiad
- Gwersi gwirfoddoli o'r pandemig
- Gweledigaeth Cymru Wledig
- Cyrhaeddiad addysg – ymateb i bandemig y Coronafeirws

## Gorffennaf

- Beth fyddwn i'n ei ddweud wrth y Beatles am unigrwydd
- Mynd i'r afael ag unigrwydd yng Nghymru yn ystod y pandemig a'r tu hwnt

## Awst

- Gwirfoddoli a llesiant yn y pandemig: dysgu o ymarfer
- Pam mynd yn ôl i'r swyddfa?

## Medi

- Gwaith amlasiantaeth a deilliannau i blant sy'n derbyn gofal
- Briffiadau Llesiant i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus
- Pandemig o'r enw unigrwydd
- Adfer ym maes addysg yn sgil pandemig y Coronafeirws

## Hydref

- Pwy sy'n unig yng Nghymru?
- Syniadau rhanddeiliaid ar gyfer mynd i'r afael ag unigrwydd yng Nghymru drwy'r pandemig a'r tu hwnt
- Mewnwelediad newydd i unigrwydd yng Nghymru
- Social Innovation in Preventing Homelessness amongst Young People in Canada and Wales: International Engagement as a Key Driver (European Journal of Homelessness)

## Tachwedd

- Gweithredu'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol
- The local government response to austerity in a small devolved country: the case of Wales (Local Government Studies)

## Rhagfyr

- Cefnogi System Dysgu Gydol Oes Cymru

## Allwedd

- Blog
- Digwyddiad
- Podlediad
- Adroddiad
- Erthygl cyfnodolyn

# Cyflwyniad

Croeso i'n hadolygiad o rai o uchafbwyntiau gwaith Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn 2021.

Yn ystod blwyddyn gynhyrchiol a thoreithiog arall i'w mwynhau, gwnaethom ddarparu tystiolaeth i Weinidogion ac arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus ar ystod eang o heriau polisi pwysig sy'n wynebu Cymru. Roedd llawer o'n gwaith yn canolbwyntio ar effeithiau'r pandemig, gan gynnwys adroddiadau ar y canlynol:

- Rhagolygon a goblygiadau hirdymor gweithio o bell;
- Sut y gall athrawon gefnogi myfyrwyr i ddal i fyny ar gyfleoedd dysgu a gollwyd; a
- Rôl grwpiau cymunedol a thechnoleg o ran mynd i'r afael ag unigrwydd ac ynysu cymdeithasol.

Ond ochr yn ochr â hyn, gwnaethom edrych  ar rai o'r heriau sylfaenol a fydd gyda ni ymhell ar ôl y pandemig hefyd, gan gynnwys y canlynol:

- Datgarboneiddio economi Cymru;
- Dileu anghydraddoldeb hiliol;
- Gwella gwasanaethau i blant a phobl ifanc sy'n agored i niwed; ac
- Ymdopi ag effeithiau Brexit ar ffermio ac ar y farchnad lafur.

Mae ein hadroddiadau, sesiynau briffio polisi, sylwebaethau a phodlediadau ar y pynciau hyn a phynciau eraill ar gael i'w lawrlwytho o'n  gwefan, a gobeithiwn y cewch wybodaeth sy'n berthnasol ac yn ddefnyddiol i chi ohonynt.

Rydym yn ddiolchgar i'r gwneuthurwyr polisi ac arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus y buom yn gweithio gyda hwy am eu hymrwymiad i lunio polisïau ac arferion sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Rydym yn diolch i'n Grwpiau Cynghori a Grwpiau Cyfeirio Gwasanaethau Cyhoeddus am eu cymorth parhaus a'u cyngor doeth, ac yn cydnabod y cyfraniadau hanfodol a wnaed gan yr arbenigwyr niferus, sefydliadau ymchwil a Chanolfannau 'Yr Hyn sy'n Gweithio' y cawsom y pleser o weithio gyda nhw yn ystod 2021.



## Yn ystod 2021...

**Lawrlwythwyd ein hadroddiadau 6,603 o weithiau, 16.2% yn fwy nag yn ystod 2020.**

**Cynyddodd y traffig i'n gwefan gan fwy na 16% o gymharu â ffigurau 2020.**

**Enillom dros 400 o ddilynwyr newydd ar Twitter a 268 o danysgrifwyr newydd i'n cylchlythyr.**

# Amdanom Ni

Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn helpu i wella'r broses o lunio polisïau a gwasanaethau cyhoeddus drwy gefnogi Gweinidogion ac arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus i gyrchu tystiolaeth annibynnol drylwyr am yr hyn sy'n gweithio, a'i gymhwyso. Mae'n gweithio mewn partneriaeth ag ymchwilwyr ac arbenigwyr polisi blaenllaw i gyfuno a defnyddio tystiolaeth sy'n bodoli eisoes a nodi bylchau lle mae angen cynhyrchu gwybodaeth newydd.

Mae'r Ganolfan yn annibynnol ar y llywodraeth ond mae'n gweithio'n agos gyda llunwyr polisi ac ymarferwyr i ddatblygu dulliau newydd o feddwl ynghylch ystod eang o feysydd polisi datganoledig, gan gynnwys sut i gryfhau'r economi a sgiliau; gwella iechyd a gofal cymdeithasol i oedolion; cefnogi cydraddoldeb; mynd i'r afael ag unigrwydd ac ynysu cymdeithasol; gwella'r ddarpariaeth ar gyfer plant sy'n derbyn gofal; a sicrhau dulliau llywodraethu da a dulliau effeithiol o weithredu polisi. Rydym yn gwneud y canlynol:

- Cefnogi Gweinidogion Llywodraeth Cymru i nodi, cyrchu a defnyddio tystiolaeth awdurdodol ac arbenigedd annibynnol a all helpu i lywio polisïau a'u gwella;
- Gweithio gyda gwasanaethau cyhoeddus i gyrchu, cynhyrchu, gwerthuso a chymhwyso tystiolaeth ynghylch yr hyn sy'n gweithio o ran mynd i'r afael â'r prif heriau economaidd a chymdeithasol; ac yn
- Defnyddio ein gwaith gyda Gweinidogion a gwasanaethau cyhoeddus i hyrwyddo dealltwriaeth o sut y gall tystiolaeth lywio a gwella'r broses o lunio polisïau a llywio a gwella gwasanaethau cyhoeddus a chyfrannu at ddamcaniaethau ynghylch llunio a gweithredu polisïau.

Drwy secondiadau, lleoliadau doethuriaeth a'i rhaglen Prentisiaethau Ymchwil, mae'r Ganolfan hefyd yn helpu i feithrin y gallu ymysg ymchwilwyr i gymryd rhan mewn ymchwil sy'n berthnasol i bolisïau sy'n cael effaith.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'n gwefan:
**www.wcpp.org.uk**



# Addysg a Sgiliau

## Dysgu gydol oes

Gofynnodd y Gweinidogion i ni gynnal adolygiad o dystiolaeth o ran dysgu gydol oes er mwyn llywio'r broses o weithredu Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) sy'n adnewyddu'r pwyslais ar ddysgu gydol oes yng Nghymru drwy sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil.

Gwnaeth ein hadroddiad argymhellion i Lywodraeth Cymru yn seiliedig ar archwiliad o ystod eang o faterion, gan gynnwys: y cyd-destunau y mae dysgu gydol oes yn digwydd ynddynt; strategaethau presennol ar gyfer ei ddarparu; yr hawliau iddo; yr angen i sicrhau cydbwysedd rhwng targedu a darpariaeth gyffredinol; rhwystrau i ddysgu; pwysigrwydd cydbwyso amcanion economaidd a chymdeithasol; rolau, cyfrifoldebau a strwythurau llywodraethu; cymorth effeithiol i sefydliadau sy'n dysgu; a dysgu gydol oes yng Nghymru o'i gymharu â rhannau eraill o'r DU.





## Codi oedran cyfranogi mewn addysg i 18

Yn Lloegr, codwyd oedran gorfodol cyfranogi mewn addysg neu hyfforddiant i 17 oed yn 2013 ac wedyn i 18 oed yn 2015. Yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, mae'r oedran gadael ysgol yn 16 oed a bu dadlau cynyddol am yr achos dros ei godi.

Gofynnodd Llywodraeth Cymru i ni ystyried goblygiadau hyn a ffyrdd eraill o annog pobl ifanc i gyfranogi mewn dysgu y tu hwnt i 16 oed.  Archwiliodd ein hadolygiad y dystiolaeth ryngwladol gan ddefnyddio profiad ystod o wledydd sydd wedi codi'r oedran cyfranogi yn ystod y blynyddoedd diwethaf (gan gynnwys nifer o daleithiau yn yr UDA ac yn Awstralia, yn ogystal â Lloegr). Canfuom fod llunwyr polisïau mewn gwledydd eraill wedi tybio y byddai codi'r oedran cyfranogi yn arwain at weithlu â chymwysterau gwell ac yn gwella allbwn a pherfformiad economaidd. Mewn rhai achosion, roedd yn cael ei ysgogi hefyd gan yr awydd i leihau anghydraddoldebau cymdeithasol ac economaidd. Fodd bynnag, mae eu profiad yn awgrymu nad yw gorfodaeth yn ddigonol ar ei phen ei hun.  Mae hefyd yn bwysig cael gwasanaethau gyrfaoedd cynhwysfawr a chymorth arall i ddysgwyr.

## Gwreiddio hanes, hunaniaeth a diwylliant pobl ddu a lleiafrifoedd ethnig ym myd addysg Cymru

Yn ei blog, dadleuodd Athro Charlotte Williams (Cadeirydd y gweithgor Cymunedau, cyfraniadau a chynefin: profiadau pobl ddu a lleiafrifoedd ethnig a'r cwricwlwm newydd) fod cynyddu cynrychiolaeth safbwyntiau, hanesion a chyfraniadau pobl ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn ymwneud â llawer mwy na llenwi cynnwys cwricwlwm. Bydd angen newid mewn diwylliant i annog 'ymarferwyr i feddwl o'r newydd am yr hyn y maent yn ei addysgu, sut maent yn addysgu, ac am yr hyn  yr ydym eisiau i bobl ifanc fod yn ogystal â'r hyn yr ydym eisiau iddynt ei ddysgu'.

## Cyrhaeddiad addysg: Ymateb i bandemig y coronafeirws

Mae pandemig y coronafeirws wedi gwaethygu'r anghydraddoldebau presennol mewn  canlyniadau addysgol, gan rwystro ymdrechion i greu system addysg decach.  Mae ein nodyn briffio yn crynhoi'r canfyddiadau a dynnwyd o adolygiad cyflym o'r dystiolaeth o ran yr ymatebion rhyngwladol i'r her hon a'r goblygiadau posibl i Gymru. Roedd yn argymell y canlynol:

- Cyllid wedi'i dargedu i leihau colledion mewn cyrhaeddiad.
- Dulliau dysgu ac asesu cyfunol sy'n cynnwys plant tlotach a phlant ag anghenion dysgu ychwanegol neu anghengion hygyrchedd.
- Ffyrdd o nodi'r arferion gorau o ran cynllunio a darparu datblygiad proffesiynol ar gyfer athrawon a chynorthwywyr addysgu.

Yn ein podlediad PeP Talk, trafododd Becki Bawler (athro ysgol uwchradd mewn ysgol gyfun yn ne Cymru a myfyriwr Doethuriaeth mewn Addysg ym Mhrifysgol Caerdydd), a Harry Fletcher-Wood (cyn-athro hanes sydd bellach yn ymchwilydd addysg), yr heriau y mae'r pandemig yn eu peri i'r system addysg yng Nghymru a'r angen i ganolbwyntio ar ddulliau cyfunol o ddysgu ac addysgu, a datblygiad proffesiynol.

# Cefnogi Cydraddoldebau

## Cydraddoldeb hiliol

Mae ymchwil yn dangos bod anghydraddoldebau hiliol parhaus yng Nghymru.  Gwnaethom gynnal chwe adolygiad tystiolaeth a lywiodd Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol Llywodraeth Cymru yn uniongyrchol. Gwnaethom ddadansoddi tystiolaeth yn ymwneud â ffyrdd o fynd i'r afael ag anghydraddoldeb hiliol yn y meysydd canlynol:

- Arweinyddiaeth a chynrychiolaeth
- Iechyd a gofal cymdeithasol
- Cyflogaeth ac incwm
- Addysg
- Tai a llety
- Trosedd a chyfiawnder

Mae ein hadroddiad ar weithredu'r cynllun yn amlygu rhai o'r camau ymarferol y bydd angen eu cymryd i gyflawni'r uchelgeisiau y mae'n eu hamlinellu.

# Plant sy'n Derbyn Gofal

## Gwaith amlasiantaethol

Mae plant a theuluoedd sydd 'mewn perygl' yn rhyngweithio â nifer o asiantaethau a gwasanaethau. Mae wedi bod yn ddyhead hirsefydlog bod y cyrff hyn a'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt yn cael eu cydgysylltu'n well ac yn canolbwyntio ar y bobl y maent yn ceisio eu helpu, ac mae gwaith amlasiantaethol wedi cael ei drafod yn helaeth mewn llenyddiaeth academaidd ac yn ystod dadleuon ynghylch polisïau.

Mae gan Gymru fframwaith polisi helaeth sy'n ceisio hwyluso hyn (gan gynnwys rhaglenni fel Teuluoedd yn Gyntaf, deddfwriaeth fel Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), fframweithiau arolygu gan Arolygiaeth Gofal Cymru, a Grŵp Cynghori Gweinidogol ar Wella Canlyniadau i Blant), ond cydnabyddir bod angen gwneud mwy.

Nododd ein hadolygiad o dystiolaeth ddulliau o gynyddu effeithiolrwydd gwaith amlasiantaethol ym maes gwasanaethau i blant ac archwiliodd sut mae mwy o gydgysylltu a chydlyniad yn gwella canlyniadau i blant a'u teuluoedd.

## Unigrwydd ac Ynysu Cymdeithasol

Mae unigrwydd yn cael effaith sylweddol ar iechyd a llesiant y cyhoedd, ac mae mynd i'r afael ag ef yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru a gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r rhan fwyaf o strategaethau'n dibynnu ar gynyddu ansawdd cysylltiadau cymdeithasol pobl. Mae cadw pellter cymdeithasol a mesurau gwarchod yn cyfyngu ar y gweithgareddau hyn ac yn cynyddu'r risg o unigrwydd yn sylweddol.

Gan adeiladu ar y gwaith a ddechreuwyd gennym cyn y pandemig, gwnaethom ganolbwyntio ar dri phrif fater yn ystod 2021.

Gwnaethom archwilio rôl cymunedau a'r defnydd o dechnoleg wrth fynd i'r afael ag unigrwydd drwy ddadansoddi effaith y pandemig ar grwpiau cymunedol a'r rôl y mae technoleg wedi'i chwarae yn absenoldeb gweithgareddau wyneb yn wyneb.

Gwnaethom ddadansoddi data o Arolwg Cenedlaethol Cymru i greu darlun o bwy sy'n unig yng Nghymru. Amlygodd ein hadroddiadau sut mae 'ffactorau risg' allweddol yn cyfuno, a nododd ffyrdd o gynllunio a darparu cyllid ac ymyriadau i fynd i'r afael ag unigrwydd yn effeithiol.

Mae gwirfoddoli wedi chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o gefnogi cymunedau yn ystod y pandemig a cheir diddordeb eang o blith llunwyr polisïau ac ymarferwyr o ran cynnal y gweithgaredd hwn er mwyn cyfrannu at adferiad a arweinir gan lesiant yng Nghymru. Er mwyn llywio'r cynlluniau adfer hwn, gwnaethom gynnal dwy astudiaeth ar gyfraniad gwirfoddoli at lesiant unigolion a chymunedau yn ystod y pandemig: cyfosodiad o 50 o astudiaethau achos yn seiliedig ar ymarfer gan ddefnyddio dull cyfosod astudiaethau achos ac adolygiad tystiolaeth cyflym.

Cafodd ein gwaith ar fynd i'r afael ag unigrwydd ei arddangos mewn cynhadledd rhithwir ddeuddydd ym mis Gorffennaf a oedd yn archwilio materion, blaenoriaethau, heriau ac anghenion y bobl sy'n gwneud penderfyniadau yng Nghymru ac sydd wedi ymrwymo i adferiad a arweinir gan lesiant.



# Iechyd a Gofal Cymdeithasol i Oedolion



## Briffiadau llesiant

O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'n ofynnol i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gynhyrchu asesiadau llesiant bob pum mlynedd. Gofynnwyd i ni gefnogi'r broses hon drwy roi cyfres o friffiadau i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar y canlynol:

**Cydraddoldebau**: yn cynnwys canlyniadau i'r bobl hynny yr ystyrir eu bod yn agored i niwed neu dan anfantais; yn meddu ar nodwedd warchodedig; yn blant o dan 18 oed; yn bobl ifanc sy'n derbyn gofal; yn bobl y mae angen gofal arnynt, ac yn bobl sy'n ofalwyr.

**Llesiant diwylliannol**: darparu diffiniad o lesiant diwylliannol, tystiolaeth o ran effaith gweithgareddau diwylliannol ar lesiant cymunedol, ac argymhellion ynghylch camau gweithredu penodol i gefnogi llesiant.

**Effaith COVID-19 a Brexit ar lesiant:** yn cynnwys effaith ergydion economaidd, sut mae'r effaith honno'n amrywio fesul grŵp, fesul sector economaidd ac yn ôl daearyddiaeth, a sut y gellid gwella llesiant drwy bolisïau sy'n ymwneud â phontio yn dilyn Brexit a'r adferiad ar ôl y pandemig.

Mae'r briffiadau'n cynnwys dadansoddiad o fylchau yn y dystiolaeth, elfennau ansicr, a meysydd i'w harchwilio, yn ogystal â sut gellir defnyddio'r dystiolaeth a gyflwynir ar draws pob un o'r tri maes i gefnogi amcanion llesiant mewn ardaloedd lleol.

## Grant cyfleusterau i'r anabl

Yn 2019, roedd gan 22% o boblogaeth Cymru anabledd, gyda'r disgwyliad y bydd hynny'n cynyddu'n sylweddol erbyn 2035. Mae Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl yn grantiau sy'n dibynnu ar brawf modd ac maent yn darparu cymorth i bobl ag anabledd tuag at y costau o wneud eu cartref yn hygyrch. Asesodd ein hadroddiad, Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl: Newid y prawf modd, ar gais Gweinidogion, yr effeithiau posibl ar awdurdodau lleol o gael gwared ar y prawf modd ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl bach a chanolig yng Nghymru.



# Effaith Brexit

## Mudo ar ôl Brexit a Chymru

Un o brif bryderon y bobl hynny a bleidleisiodd dros adael yr UE oedd cymryd rheolaeth yn ôl dros ein ffiniau. Ym mis Chwefror 2020, dywedodd y Swyddfa Gartref y byddai rheolaethau ar fudol yn helpu i greu 'economi cyflog uchel, sgiliau uchel, cynhyrchiant uchel' wrth gydnabod 'y bydd angen i gyflogwyr addasu' i ostyngiad yn y cyflenwad o weithwyr o'r UE. Bwriad y system newydd oedd 'gweithio i'r DU yn ei chyfanrwydd' ond roedd Gweinidogion Cymru yn pryderu y gallai lleihau mudo waethygu'r broblem fod y boblogaeth yn heneiddio, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, a chreu prinder llafur mewn rhai sectorau allweddol.

Mewn blog, trafododd Dr Sarah Kyambi, Cyfarwyddwr Polisi Mudo yr Alban, yr effaith bosibl y gallai'r system fudo newydd yn dilyn Brexit ei chael ar Gymru a'r Alban, gan nodi blaenoriaethau ar gyfer dylanwadu ar bolisi mewnfudo'r DU.

Yn ystod ein podlediad PeP Talk, trafododd Dr Kyambi, Jonathan Portes (Athro Economeg yn King's College, Llundain) a Dr Llyr ap Gareth (cyn Uwch-Gynghorydd Polisi yn Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru) effeithiau rheolau mudo yn dilyn Brexit, a ffyrdd y gallai Llywodraeth Cymru ymateb i'r heriau a'r cyfleoedd y maent yn eu creu.

# Yr economi a Sgiliau

## Gweithio o bell

I lawer o weithwyr yng Nghymru yn ystod y pandemig, daeth gweithio o bell y sefyllfa normal newydd felly dadansoddwyd tystiolaeth i ddeall sut y gallai gweithio o bell effeithio ar yr economi yn y tymor hwy.

Ym mis Medi 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru 'uchelgais tymor hwy i weld tua 30% o weithwyr yng Nghymru yn gweithio gartref neu'n agos i'w cartrefi, gan gynnwys ar ôl i fygythiad COVID-19 leihau', ac mae arolygon o fusnesau a gweithwyr yn awgrymu y bydd llawer o sectorau'n gweld newid parhaol i ddul mwy cyfunol o weithio o'r swyddfa a'r cartref pan fydd y pandemig wedi dod i ben.

Fodd bynnag, o'i chymharu â rhannau eraill o'r DU, mae gan Gymru gyfran fwy o weithwyr mewn sectorau nad ydynt yn eu galluogi i weithredu o'u cartrefi, megis manwerthu, lletygarwch a gofal cymdeithasol. Felly, mae angen i lunwyr polisïau fod yn ofalus i beidio â goramcangyfrif lefel y gweithio o bell wrth wneud penderfyniadau am fuddsoddiadau mewn trafnidiaeth a mannau trefol yn y dyfodol.



# Yr amgylchedd a chynaliadwyedd



## Trawsnewidiadau cyfiawn

Mae datgarboneiddio yn her bolisi sylweddol, ac mae Llywodraeth Cymru wedi datgan ei huchelgais i gyrraedd targed o 95% o ostyngiad mewn allyriadau erbyn 2050. Mae ein hadroddiad, 'Tuag at Drawsnewid Cyfiawn yng Nghymru' yn archwilio ffyrdd o ddatgarboneiddio economi Cymru mewn ffordd sy'n osgoi creu neu waethygu anghydraddoldebau, ac, yn ddelfrydol, yn eu lleihau.

Mae'r adroddiad yn trafod y cydberthynas rhwng trawsnewid cyfiawn a fframwaith polisi presennol Cymru, a chyfleoedd i integreiddio'r ddau, ac yn ystyried effaith y pandemig a'r gwersi y gallai deillio ohono ar gyfer trawsnewid cyfiawn.

## Dyfodol polisi ffermio Cymru

Bydd ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd yn cael effaith sylweddol ar y diwydiant amaethyddol yng Nghymru. Er mwyn lliniaru'r effeithiau, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn datblygu cynigion polisi sydd â'r nod o gefnogi ffermwyr o ran mabwysiadu arferion ffermio cynaliadwy, gan ganolbwyntio ar dalu am gynhyrchu nwyddau cyhoeddus.

Defnyddioddein hadroddiad astudiaeth achos i archwilio sut mae un grŵp a arweinir gan ffermwyr wedi ymateb i bolisïau ffermio newidiol, drwy gymryd rhan mewn dull cyfranogol o ddatblygu atebion ar raddfa tirwedd yng ngogledd Cymru.

Gallwch hefyd wrando ar ein podlediad PeP Talk lle mae'r Athro Michael Woods a Guto Davies yn trafod Gweledigaeth Cymru Wledig, sef adroddiad a gomisiynwyd gan Fforwm Gwledig Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ddatblygu fframwaith strategol sydd â'r nod o wella ac ategu polisïau amaethyddol y dyfodol drwy fynd i'r afael ag amrywiaeth o heriau, gan gynnwys buddsoddi yn y sylfaen sgiliau ac mewn gweithgareddau i ychwanegu gwerth at yr ystod o gynhyrchion sylfaenol sy'n deillio o weithgarwch ffermio.



# Defnyddio Tystiolaeth a Dulliau Effeithiol o Lunio Polisi

## Gwella'r defnydd o dystiolaeth mewn llywodraeth leol

Mae meithrin cysylltiadau gwell rhwng y byd academaidd a llywodraeth leol wedi bod yn bryder ers tro byd i'r bobl hynny sydd â diddordeb mewn hybu arferion sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Er bod y rhwystrau a'r galluogwyr o ran y defnydd o dystiolaeth yn hysbys iawn a bod corff cynyddol o lenyddiaeth ar ymarferwyr llywodraeth leol ac academyddion fel partneriaid ymchwil, rydym yn gwybod llai am y ffordd orau o hwyluso'r partneriaethau hyn.

Er mwyn archwilio'r mater hwn, gwnaethom weithio mewn partneriaeth â Chyngor Caerdydd a Gofal Cymdeithasol Cymru i archwilio ffyrdd o gryfhau'r cysylltiadau rhwng y cyngor, iechyd y cyhoedd a'r byd academaidd.

Fel rhan o'r prosiect hwn, gwnaethom gynnal tri gweithdy gyda chynrychiolwyr o Gwasanaethau Plant, Prifysgol Caerdydd, Gofal Cymdeithasol Cymru, Llywodraeth Cymru a'r trydydd sector, ynghyd ag arolwg gyda staff Gwasanaethau Plant ar ddulliau o ddefnyddio ymchwil ac arferion sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn y cyngor. Yn ogystal, mae ein hadroddiad yn archwilio arferion da presennol, rhwystrau i gysylltiadau, a chyfleoedd i'w cryfhau.





## Defnyddio dulliau polisi ar gyfer prif ffrydio cydraddoldebau

Mae gan Lywodraeth Cymru ddyletswydd statudol i brif ffrydio cyfleoedd cyfartal yn ei holl weithgareddau ac mae wedi gwneud ymdrechion sylweddol i wneud hynny. Yn 2019, cyhoeddodd y byddai'n deddfu adrannau 1 a 3 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, o'r enw'r 'ddyletswydd economaidd-gymdeithasol' sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus roi sylw dyledus i'r angen i leihau anghydraddoldebau mewn canlyniadau y maent yn deillio o anfanteision economaidd-gymdeithasol.  Mae effaith anghymesur y pandemig COVID-19 ar grwpiau penodol wedi atgyfnerthu ymhellach yr angen i ymgorffori cydraddoldeb ym mhenderfyniadau Llywodraeth Cymru.

Yng ngoleuni diddordeb o'r newydd, archwiliodd ein hadroddiad yr offerynnau polisi y mae Llywodraeth Cymru wedi'u defnyddio i brif ffrydio cyfleoedd cyfartal, effeithiolrwydd yr offerynnau hyn, a ffactorau sy'n dylanwadu ar eu heffeithiolrwydd.

# Ein Grŵp Cynghori

Mae'r Ganolfan yn ddiolchgar iawn am y cyngor a'r cymorth a ddarparwyd drwy gydol 2021 gan ein Grŵp Cynghori o unigolion arbennig o'r byd academaidd, y llywodraeth a'r gwasanaethau cyhoeddus.

**Stephen Aldridge** yw Cyfarwyddwr Dadansoddi a Data'r Adran Codi'r Gwastad, Tai a Chymunedau.

Mae'r **Athro Annette Boaz** yn Athro mewn Ymchwil Gofal Iechyd yn y Ganolfan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymdeithasol ym Mhrifysgol San Siôr, Llundain a Phrifysgol Kingston.

**Yr Athro Alice Brown** yw Cadeirydd Cyngor Cyllid yr Alban ac mae'n Athro Emeritws Gwleidyddiaeth ym Mhrifysgol Caeredin.

**Dr Carol Campbell** yw Cyfarwyddwr y Rhwydwaith Gwybodaeth ar gyfer Ymchwil Addysg Gymhwysol – Réseau d'échange des connaissances pour la recherche applique en education.

Mae'r **Dr Jane Davidson** yn gyn-weinidog Llywodraeth Cymru ac yn Ddirprwy Is-ganghellor ar gyfer Ymgysylltiad Allanol a Chynaliadwyedd ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.

**Yr Athro Syr Ian Diamond** yw Ystadegydd Cenedlaethol y DU ac mae'n gyn-Bennaeth ac Is-ganghellor Prifysgol Aberdeen.

Mae **Dr Ruth Hall** yn Gyfarwyddwr Anweithredol yn Addysg a Gwella Iechyd Cymru ac mae'n gyn-Brif Swyddog Meddygol Cymru.

**Yr Athro Gerry Holtham** yw Athro Hodge yr Economi Ranbartholym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd.

Mae **Syr Peter Housden** yn gyn-Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth yr Alban.

Mae'r **Athro Ruth Hussey** yn gyn-Brif Swyddog Meddygol Cymru a chadeiriodd yr Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru.

**Yr Athro Paul Johnson** yw Cyfarwyddwr y Sefydliad Astudiaethau Cyllidol.

**Abdool Kara** yw Arweinydd Gweithredol y Gwasanaethau Lleol yn y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ac mae'n gyn-Brif Weithredwr awdurdod lleol.

**Yr Athro Laura McAllister** yw Athro Polisi Cyhoeddus a Llywodraethiant Cymru yng Nghanolfan Llywodraethiant Cymru Prifysgol Caerdydd.

Mae **Dr June Milligan** yn Gomisiynydd y Gwasanaeth Sifil ac yn aelod lleyg o gorff llywodraethu Prifysgol Glasgow a chyn-Gadeirydd Pwyllgor Cymru ar Gydraddoldeb a Hawliau Dynol.

**Yr Athro Helen Patterson** yw'r Prif Weithredwr yng Nghyngor Bwrdeistrefol Metropolitan Walsall.

**Yr Athro Nick Pearce** yw Cyfarwyddwr y Sefydliad Ymchwil Polisi ym Mhrifysgol Caerfaddon ac mae'n gyn-bennaeth Uned Polisi 10 Stryd Downing a'r Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus.

Mae **Ceridwen Roberts** yn gyn-Uwch-gymrawd Ymchwil yn Adran Polisi Cymdeithasol ac Ymyriad Prifysgol Rhydychen.

Mae'r **Fonesig Dr Jane Roberts** yn Gymrawd Ymchwil mewn Arweinyddiaeth Gyhoeddus yn y Brifysgol Agored a chyn-Arweinydd Bwrdeistref Camden yn Llundain.

Mae **Michael Trickey** yn Uwch-gymrawd Ymchwil Anrhydeddus yn nhîm Dadansoddi Cyllidol Cymru Prifysgol Caerdydd.

Mae'r **Athro Syr Adrian Webb** yn gyn Is-ganghellor prifysgol ac yn Athro Polisi Cymdeithasol, ac mae wedi gweithio mewn nifer o swyddi cyhoeddus yng Nghymru.



# Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Prifysgol Caerdydd
Sbarc/Spark
Ffordd Maindy
Caerdydd CF24 4HQ

www.wcpp.org.uk
info@wcpp.org.uk
029 2087 5345
@WCfPP

Cardiff University
Prifysgol Caerdydd

UKRI
Economic and Social Research Council

Llywodraeth Cymru
Welsh Government